

Pa Mor Lân Yw Ein Strydoedd?

Crynodeb
2022-23



PA MOR LÂN YW EIN STRYDOEDD 2022-23

Mae Cadwch Gymru'n Daclus wedi bod yn cofnodi glendid strydoedd ers 2007-08



96%

O STRYDOEDD AR
RADD B AC UWCH

Mae Gradd B ac uwch yn
golygu bod gan y strydoedd
lefel dderbyniol o lendid

**7,450 O WEIPIAU
GWLYB AR
STRYDOEDD
CYMRU.**

SBWRIEL SMYGU WEDI EI GANFOD AR 3 MEWN 4 O STRYDOEDD



★ Tuedd newydd ★

Mae amcangyfrifon cynnar yn
awgrymu bod sbwriel
e-sigaréts yn cael ei ganfod ar
6% o strydoedd

PECYNNAU BWYD
A DIOD AR 65% O
STRYDOEDD



BAW CŴN

CANFUWYD BAW
CŴN AR 6% O
STRYDOEDD, EI
LEFEL ISAF HYD YN
HYN.



**ADRODDIAD CYMRU
GYFAN 2022-2023**

keepwalestidy.cymru

**SBWRIEL YN CAEL
EI OLLWNG GAN
GERDDWYR YW'R
MWWYAF
CYFFREDIN.**

Crynodeb

Mae'r crynodeb hwn yn canolbwyntio ar y canfyddiadau o 2022-23 ac yn cymharu ag arolygon a gynhaliwyd ers 2007-08. Mae'n rhoi cipolwg ar gyflwr ein strydoedd.

Mae sbwriel ac Ansawdd Amgylcheddol Lleol gwael yn felltith yn ein cymunedau, gallant fod yn beryglus i bobl a natur ac effeithio ar ba mor ddiogel yr ydym yn teimlo mewn ardal. Trwy ddod â data ynghyd o'r arolygon hyn ar draws Cymru, gallwn ddeall cyflwr ein strydoedd yn well, monitro tueddiadau a thargedu gwaith glanhau yn effeithiol.

Trosolwg o Ansawdd Amgylcheddol Lleol ar draws Cymru

Rydym yn cyfrifo Dangosydd Glendid ar gyfer Cymru yn annibynnol. Mae ffigur uwch yn dangos amgylchedd glanach. Y Dangosydd Glendid Cymru gyfan ar gyfer 2022-23 yw 68.8. Mae hwn yn ostyngiad bach yn y lefel glendid a gofnodwyd dros y blynyddoedd diwethaf.

Eleni, mae'r bwloch rhwng yr awdurdodau lleol uchaf (sydd wedi cael y sgôr gorau) a'r isaf (sydd wedi cael y sgôr gwaethaf) wedi lleihau am y tro cyntaf ers 2011-12.

Mae pob stryd yn ystod yr arolygon hefyd yn cael gradd ar gyfer glendid. Mae strydoedd yn cael eu graddio fel a ganlyn gyda'r rheiny sy'n cael gradd B ac uwch yn cael eu hystyried i fod o safon glendid derbyniol.



Eleni, canran gyfartallog y strydoedd gafodd radd B ac uwch oedd 96%. Mae hwn yn welliant ar y lefel a gofnodwyd y llynedd (95.5%).

Ffynonellau sbwriel

Yn ystod yr arolwg rydym yn talu sylw penodol i fynychder y ffynonellau mwyaf cyffredin o sbwriel y daethpwyd ar eu traws. Roedd gan 84.6% o strydoedd a arolygwyd bresenoldeb sbwriel oedd wedi ei ollwng gan gerddwyr – cynnydd ar y llynedd. Mae ffynonellau nodedig eraill o sbwriel yn cynnwys sbwriel domestig a ffynonellau anhysbys o sbwriel a ganfuwyd ar bron dwy ran o dair o strydoedd.

Cafwyd gostyngiad ym mhresenoldeb sbwriel busnes, sbwriel adeiladu, carthion anifeiliaid a gwydr eleni, i gyd wedi eu cofnodi ar lai nag 1 mewn 5 o strydoedd.

Fel y llynedd, mae syrfewyr Cadwch Gymru'n Daclus wedi nodi a oedd y mathau a'r ffynonellau o sbwriel a ganfuwyd yn cynnwys pecynnau bwyd a diod. Canfuwyd y pecynnau hyn ar 65.3% o strydoedd ar draws Cymru, cynnydd o'i gymharu â'r llynedd.

Mathau o Sbwriel

Wrth gynnal arolygon glendid strydoedd, rydym yn talu sylw penodol i bresenoldeb rhai o'r mathau mwyaf problematig o sbwriel. Dyma'r prif rai:

- **Sbwriel smygu** yw'r math mwyaf mynych o sbwriel a gofnodwyd o hyd ac mae wedi cynyddu eleni yn dilyn nifer o flynyddoedd lle mae ei bresenoldeb wedi bod yn gostwng. Bonion sigarêts yn bennaf, ond mae'r math yma o sbwriel hefyd yn cynnwys pecynnau, blaen hidlwyr a phetheuach eraill smygu. Mae presenoldeb e-sigarêts untro a sbwriel arall yn gysylltiedig ag e-sigarêts wedi cyfrannu at y cynnydd eleni fodd bynnag. Mewn rhai ardaloedd, cofnodwyd y math yma o sbwriel ar 6% o strydoedd.
- **Sbwriel danteithion**, sydd yn cynnwys melysion, gorchuddion, ffyn lolis a pheccynnau creision, yw'r ail fath mwyaf mynych o sbwriel, wedi ei ganfod ar fwy na hanner ein strydoedd.
- Mae ychydig o amrywiad wedi bod mewn **sbwriel diodydd** ers 2013-14 gyda'r math yma o sbwriel yn cael ei ganfod yn gyson ar ychydig dros 40% o strydoedd.
- Yn yr un modd, nid oes llawer o newid wedi bod mewn **sbwriel bwyd brys** dros y blynyddoedd diwethaf, yn cael ei ganfod yn barhaus ar 1 mewn 5 o strydoedd ar draws Cymru.

Rhoi gwerth ar sbwriel – Eitemau untro

Mae gan lawer o'r sbwriel sydd yn cael ei ganfod ar strydoedd Cymru werth ailgylchu neu ailddefnyddio. Er mwyn cyrraedd ein huchelgais o fod yn genedl dim gwastraff go iawn, mae angen ystyried pob math o sbwriel.

Gyda chynlluniau i gyflwyno taliadau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, gwaharddiad ar rai eitemau plastig untro, a chyhoeddi cynllun dychwelyd ernes, rydym wedi casglu data ar eitemau allweddol i fonitro llwyddiant y cynlluniau.

- Yn ôl ein harolygon, cofnodwyd pecynnau bwyd a diod 'wrth fynd' ar 65.3% o strydoedd ar draws Cymru. 25% yn uwch na'r amcangyfrifon presennol.

- Caniau alwminiwm yw'r cynhwysydd diodydd sydd yn cael ei daflu fwyaf ar strydoedd Cymru a gellir ei ganfod ar 14% o'n strydoedd. Mae poteli plastig yn peri problem hefyd ar fwy an 12%. Lle mae'r eitemau hyn yn cael eu cofnodi, gallant gael eu canfod mewn meintiau uchel gyda'u presenoldeb gweledol yn cael effaith sylweddol ar olwg a naws ardal.
- Cofnodwyd weipiau gwlyb ar bron 10% o strydoedd ar draws Cymru, sydd ychydig yn is na'r llynedd ond mae'n werth nodi bod hyn yn cynrychioli gwaddol y sbwriel PPE a gofnodwyd yn flaenorol yn ystod pandemig COVID-19 ac felly caiff ei ystyried fel math 'newydd' neu ychwanegol o sbwriel nas gwelwyd ar y raddfa hon. Mae eu presenoldeb yn helaeth ac mae'r data ar eu meintiau yn dangos y gallai dros 7,450 o weipiau gwlyb fod wedi cael eu taflu ar ein strydoedd yn unig ar unrhyw un adeg.
- Gellir canfod batris, a gofnodwyd am y tro cyntaf, ar 1.8% o strydoedd, sydd yn uchel o ystyried eu niwed posibl, naill ai trwy gemegau gwenwynig neu berygl o dân. Hefyd wedi ei gofnodi am y tro cyntaf oedd presenoldeb cynnyrch tecstilau brethyn sydd wedi eu cofnodi ar 2.8% o strydoedd.

Materion eraill sy'n effeithio ar ansawdd amgylcheddol

Nid sbwriel yw'r unig fater sydd yn cael effaith ar ansawdd strydoedd; mae nifer o broblemau eraill yn effeithio ar y ffordd y mae pobl yn teimlo am eu hardal leol. Rydym yn galw'r rhain yn Ddangosyddion Ansawdd Amgylcheddol Niweidiol (AEQI).

- Canfuwyd **baw cŵn** ar 6% yn unig o strydoedd, y lefel isaf ers i ni ddechrau arolygu yn 2007-08.
- Cofnodir **Graffiti a Phostio Anghyfreithlon** ar 6.7% a 4.4% o strydoedd. Dyma'r lefelau uchaf a gofnodwyd ers sawl blwyddyn.
- Anaml y gwelir **fandaliaeth** ac ar draws Cymru, mae'n bresennol ar lai nag 1 mewn 100 o strydoedd.
- Mae **malurion a chwyn** bob amser wedi bod yn AEQI cyffredin ar strydoedd Cymru ac maent bellach ar y lefel uchaf a gofnodwyd erioed (y ddau ar 96.1% o strydoedd).

Ewch i wefan Cadwch Gymru'n Daclus am fwy o fanylion am ein harolygon glendid strydoedd, yn cynnwys methodoleg lawn. www.keepwalestidy.cymru

Mae'r adroddiad llawn a dadansoddiad ar gael ar gais. Ebostiwrch leq@keepwalestidy.cymru



© Cadwch Gymru'n Daclus 2023

Ni ellir atgynhychu unrhyw ran o'r adroddiad hwn ar unrhyw ffurf o gwbl heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr ymlaen llaw. Rhoddir caniatâd am ddim fel arfer i sefydliadau elusennol a dielw eraill.